20 Tachwedd 2018 - Rhifyn 127

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness & Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru – Enwebiadau ar Agor Nawr!

Mae amser yn brin!
Mae gennych hyd at **ddydd Gwener, 30 Tachwedd** i enwebu Athro/Athrawes, Rheolwr Busnes Ysgol neu Gymhorthydd Dosbarth rhagorol ar gyfer Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru. Enwebwch nawr drwy glicio **yma**.
Am ragor o fanylion, dilynwch y **ddolen hon**.

System Archebu Profion Darllen a Rhifedd [Rhesymu] Cenedlaethol [PWYSIG!]

Mae diwrnod olaf archebu papurau'r Profion Darllen a Rhifedd [Rhesymu] yn agosáu. Archebwch eich papurau drwy **System Archebu Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol** [dolen allanol] cyn **DYDD GWENER, 23 TACHWEDD 2018.**

Cyflwyniad i Asesiadau Personol

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno asesiadau personol ar-lein o'r flwyddyn academaidd hon ymlaen a byddant yn disodli'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol dros gyfnod o dair blynedd.
Parhau i ddarllen, cliciwch yma...

Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].
Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.
Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

HYFFORDDIANT	DYDDIAD	LLEOLIAD
Ysgolion sy'n wybodus am drawma [Bae Colwyn - SESIWN DDWYIEITHOG]	21/11/2018	Porth Eirias, Bae Colwyn
Adrodd Stori & Gwneud Ffilm yn Ddigidol [Saesneg, Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Carfan C - CYFRWNG CYMRAEG - Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
Cymorthyddion wrth eu gwaith [Cohort C - CYFRWNG SAESNEG - Llanelwy]	22/11/2018	OpTIC, Llanelwy
BIOLEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Yr Wyddgrug]	26/11/2018	Gwesty'r Beaufort Park, Yr Wyddgrug ★NEWYDD★

CEMEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Prifysgol Bangor]	26/11/2018	Prifysgol Bangor ★NEWYDD★
FFISEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Cyffordd Llandudno]	26/11/2018	Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno ★NEWYDD★
Addysgu Mathemateg TGAU - Mathemateg ym myd Addysg a Diwydiant (MEI)	28/11/2018	Ysgol John Bright, Llandudno
Cracio'r Cod – Anturiaethau Pellach gyda' Crumble' [Cynradd – Cyfrwng Saesneg – Yr Wyddgrug]	28/11/2018	GwE, Linden House, Yr Wyddgrug
Hyfforddiant Datgelu i Ysgolion	04/12/2018	Tŷ Menai, Bangor
Cracio'r Cod – Cynradd [Dwyieithog – Caernarfon]	04/12/2018	GwE, Penrallt, Caernarfon
FFISEG: Hyfforddiant Ysgol Hwb – Codi Safonau mewn Ffiseg [Yr Wyddgrug]	04/12/2018	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug ★NEWYDD★
BIOLEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Prifysgol Bangor]	05/12/2018	Prifysgol Bangor ★NEWYDD★
CEMEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Bae Colwyn]	05/12/2018	GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn ★NEWYDD★
FFISEG – Cyfarfod Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd [Yr Wyddgrug]	05/12/2018	Gwesty Beaufort Park, Yr Wyddgrug ★NEWYDD★
Cracio'r Cod – Anturiaethau Pellach gyda 'Crumble' [Cynradd – Dwyieithog – Bangor]	06/12/2018	Tŷ Menai, Bangor
Lleihau'r Anfantais mewn Gwyddoniaeth	06/12/2018	Venue Cymru, Llandudno
CEMEG: Hyfforddiant Ysgol Hwb – Codi Safonau mewn Cemeg [Yr Wyddgrug]	11/12/2018	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug ★NEWYDD★
Datblygu sustem hunan arfarnu gadarn i gynllunio gwelliant [Cymraeg, Llanrwst]	12/12/2018	Glasdir, Llanrwst
BIOLEG: Hyfforddiant Ysgol Hwb – Codi Safonau mewn Bioleg [Yr Wyddgrug]	18/12/2018	Ysgol Alun, Yr Wyddgrug ★NEWYDD★

Rhaglenni Datblygu GwE

RhDAG [Carfan 8 – Cymraeg) – Diwrnod 3

NEWID DYDDIAD DIWRNOD 3

Nawr yn cael ei gynnal ddydd Iau, 6 Rhagfyr 2018.

Digwyddiadau Cracio'r Cod

CRACIO'R COD – ANTURIAETHAU PELLACH GYDA 'CRUMBLE' [CYNRADD]

- Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2018 – 9:00yb - 3:00yh – Swyddfeydd GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [Cyfrwng Saesneg]
- Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018 – 9:00yb - 3:00yh – Tŷ Menai, Bangor [Dwyieithog]

CRACIO'R COD [CYNRADD]

- Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2018 – 9:00yb - 3:00yh – Swyddfeydd GwE, Penrallt, Caernarfon

COFRESTRWCH DRWY G6.

Building Skills – Hyfforddiant Therapi Lego ★NEWYDD★

DYDD LLUN, 14 IONAWR 2019 – 9:00YB-4:30YP – LLEOLIAD I'W GADARNHAU

Ymyriad cydweithredol yn seiliedig ar chwarae yw therapi LEGO® sydd wedi'i gynllunio i addysgu sgiliau cymdeithasol i blant sydd ar y Sbectrwm Awtistig [ynghyd ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol eraill]. Addysgir sgiliau cymdeithasol a'u hymarfer drwy chwarae grŵp strwythuredig.

COFRESTRWCH DRWY G6.

Cyfleoedd gyda GwE

Arweinyddion Digidol

Secondiad [15 diwrnod dros 2 dymor – i gychwyn Ionawr 2019] - £4,750 i bob ysgol.
Mae GwE yn awyddus i dderbyn ceisiadau gan ymarferwyr brwdfrydig sydd â dealltwriaeth drylwyr o arddulliau dysgu digidol, ac sydd â phrofiad o arwain datblygiadau cymhwysedd digidol ar lefel ysgol.
Rhaid i'r Corff Llywodraethu gytuno ar hyn cyn i chi ymgeisio.
HYSBYSEB SWYDD – ARWEINYDDION DIGIDOL
SWYDD DDISGRIFIAD – ARWEINYDDION DIGIDOL
Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr erbyn **12:00yp, Dydd Llun, 26 Tachwedd** i **anwengwilym@gwegogledd.cymru**
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Gwion Clarke, Arweinydd Digidol Strategol ar 07929 375819 neu drwy anfon e-bost i gwionclarke@gwegogledd.cymru

Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant – STEM [Uwchradd][Llawn Amser] – Ail Hysbyseb

Secondiad neu gytundeb dros dro am flwyddyn yn y lle cyntaf gyda phosibilrwydd o'i ymestyn. Mae hyblygrwydd i drafod hyd y secondiad o fewn oes y prosiect - 1 – 3 ½ mlynedd. Amodau a Thelerau Gwaith Llywodraeth Leol yn berthnasol.
HYSBYSEB SWYDD – YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD] [LLAWN AMSER]
SWYDD DDISGRIFIAD - YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT – STEM [UWCHRADD] [LLAWN AMSER]
Gwahoddir ceisiadau trwy lythyr gan gynnwys CV erbyn **10:00yb, Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018** i **anwengwilym@gwegogledd.cymru**
Am sgwrs anffurfiol cysylltwch ag Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost i alwynjones@gwegogledd.cymru

Cyfieithydd [Dros Dro]

DROS DRO – TAN 31/08/2019 [LLAWN AMSER – OND GELLIR YSTYRIED CEISIADAU AM WEITHIO RHAN AMSER NEU RANNU SWYDD]
Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.
HYSBYSEB SWYDD – CYFIEITHYDD [DROS DRO]
SWYDD DDISGRIFIAD – CYFIEITHYDD [DROS DRO]
DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 29 TACHWEDD 2018
Am sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Sion Wyn Evans, Rheolwr Busnes [Dros Dro] GwE ar 0300 500 8087 neu anfon e-bost i sionwynevans@gwegogledd.cymru
Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais, ewch i www.gwynedd.gov.uk neu cysylltwch ar 01286 679076.

Hyfforddiant Cynradd

Rhwydweithiau Tymhorol y Cyfnod Sylfaen

AR GYFER UWCH DIMAU RHEOLI, ATHRAWON A CHYMORTHYDDION DOSBARTH Y CYFNOD SYLFAEN
Yn ystod y cyfarfodydd trafodir materion a datblygiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol parthed y cyfnod sylfaen yn ogystal â rhannu astudiaeth achos 'arfer dda'.
Mae manylion pellach am y rhwydweithiau ar gael **yma**.
NODWCH Y MAP PARCIO AR GYFER LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG A BRYN EIRIAS, BAE COLWYN.

Datblygu Dinasyddiaeth Ddigidol

Mae GwE yn falch iawn o allu cynnig hyfforddiant am ddim gan Dr Sangeet Bhullar o Wise Kids i athrawon cynradd y rhanbarth. Bydd y sesiwn yn edrych ar ddulliau ymarferol o ddatblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth ddigidol a lles dysgwyr cynradd yn y cyd-destun hwn. Cliciwch **yma** am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Digwyddiadau Uwchradd

PISA 2018

Cynhelir yr astudiaeth bwysig hon mewn ysgolion y tymor hwn ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr [PISA] yw astudiaeth addysg ryngwladol fwyaf y byd, ac mae dros 80 o wledydd yn rhan ohoni.
Darllenwch ymhellach yma.

Gweithdy Dinasyddiaeth Ddigidol i Ddysgwyr ac Athrawon Uwchradd

Mae GwE a Wise Kids yn gwahodd grwpiau o hyd at bump (*1 athro/athrawes a 4 o ddisgyblion)* o ysgolion y rhanbarth i fynychu gweithdy ymarferol gyda Dr Sangeet Bhullar. Themâu'r gweithdy fydd Hyrwyddo Dinasyddiaeth Ddigidol, Cymhwysedd Digidol a Lles Digidol, a'r nod fydd helpu ysgolion i weithio gyda phobl ifanc i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd digidol ac i ddefnyddio technolegau ar-lein yn effeithiol ac yn gyfrifol. Mae lle i 8 o ysgolion ar sail y cyntaf i'r felin - cliciwch **yma** am ragor o wybodaeth ac i gofrestru.

Gweithdy Ymgysylltu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar Fesurau Perfformiad Ôl-16 Cyson

Gofynnir i bob ysgol sydd â chweched dosbarth anfon cynrychiolydd i Weithdy Ymgysylltu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar Fesurau Perfformiad Ôl-16 cyson. Cynhelir y gweithdy yn y Glasdir ddydd Gwener 30 Tachwedd.
I gadw lle, cysylltwch ag Eirian Harris drwy anfon e-bost - eirianharris@gwegogledd.cymru

Addysgu Mathemateg TGAU

DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I ATHRAWON MATHEMATEG CA3 A CA4
Mae GwE yn cynnig cyllid llawn i aelodau cymwys, yn amodol ar bresenoldeb llawn.
Cliciwch yma am ragor o fanylion neu cysylltwch â **delythellis@gwegogledd.cymru**

Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

"Google on the Road" ★NEWYDD★

DYDD MERCHER, 5 RHAGFYR 2018 – 10:00 O'R GLOCH – VENUE CYMRU, LLANDUDNO
Mae Google yn dod i ogledd Cymru! Byddant yn cynnal cynhadledd ymarferol yn Venue Cymru gan edrych ar sut i ddefnyddio Google drwy Hwb, lleihau baich gwaith a gwneud y defnydd gorau o 'Chromebooks' mewn ysgolion. Digwyddiad Saesneg yw hwn ond bydd cefnogaeth Gymraeg ar gael drwy gydol y dydd. Cliciwch **yma** i gofrestru.

Cwrs Arweinyddiaeth Ysgol Eglwysig 2019-2020 ★NEWYDD★

Cwrs 12 mis i gefnogi a datblygu arweinwyr y dyfodol ym mhob Ysgol Eglwysig ar draws de Cymru.
Cliciwch yma am ragor o fanylion.
DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU: 18 RHAGFYR 2018

2 Gynhadledd gan Brifysgol Bangor:
Y Gymraeg mewn Addysg a Dwyieithrwydd

DYDD IAU, 22 TACHWEDD 2018 – CYFRWNG SAESNEG AR GYFER YSGOLION SAESNEG – GWESTY BEAUFORT PARK, YR WYDDGRUG
Yn dilyn ymateb 160 o benaethiaid [neu aelodau o uwch dîm rheoli] i'r Arolwg Sgiliau Iaith Gymraeg yn nodi y byddent yn gwerthfawrogi "sesiwn adfywio'r Gymraeg," mae Prifysgol Bangor yn cynnig cynhadledd fydd yn gosod cyd-destun i'r Gymraeg o ran cyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru a chynnig trosolwg cynhwysfawr o ddwyieithrwydd.
Cofrestrwch drwy G6.

Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

#HoliKirsty ★NEWYDD★

Bydd Kirsty Williams, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ateb eich cwestiynau'n fyw ar Twitter [@wgcs_education] yfory, **dydd Mercher 21 Tachwedd**. Defnyddiwch yr hashnod **#HoliKirsty** i ofyn cwestiwn.

Cystadleuaeth *"Premier League Writing Stars"* ★NEWYDD★

Mae Cystadleuaeth farddoniaeth *Premier League Writing Stars* yn dychwelyd am yr ail flwyddyn i ysbrydoli plant rhwng 5 ac 11 oed i fod yn greadigol a chreu cerddi ar y thema Amrywiaeth.
I ddarganfod rhagor ac am wybodaeth ar sut i gyflwyno cerdd, ewch i plprimarystars.com

Into Film Cymru ★NEWYDD★

ASTUDIAETHAU ACHOS

Mewn stori arbennig, mae pedwar rhiant ac un athro yn rhannu eu barn am waith Into Film Cymru. O fynychu clwb ffilm i wneud ffilmiau, maen nhw'n tynnu sylw at sut y mae'r cyfleoedd yn effeithio ar ddatblygiad personol ac academaidd eu plant. Ymhlith y pedwar rhiant mae un o Wynedd, mam Ceri-Ellen. Darllenwch ei barn hi **yma**.

Academi Newydd yn Cymeradwyo Consortia Addysg Cymru i Gyflwyno'r Rhaglen Arweinyddiaeth Genedlaethol Gyntaf i Ysgolion

Roedd diwrnod cenedlaethol y Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf, oedd yn cynnwys y siaradwr gwadd ysbrydoledig Syr John Jones, yn benllanw tymor o dorri tir newydd ar gyfer y consortia addysg. Dyma'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth genedlaethol gyntaf o ganlyniad i gydweithio rhwng y pedwar consortiwm, y gyntaf i gael dilysiad gan bartneriaid achredu Prifysgol Bangor a'r Athrofa [Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant], a'r rhaglen gyntaf un i'w chymeradwyo gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol a sefydlwyd yn ddiweddar.
Cliciwch yma i ddarllen ymlaen...

Chwith i'r Dde: Tom Fanning [ERW] / Marc Berw Hughes [GwE] / Jendy Hiller [CSC] / Deb Woodward [EAS] / Sir John Jones / Anna Brychan [CSC] / Rhys Howard Hughes [GwE] / Richard Carbis [CSC] / Huw Foster Evans [Prif Weithredwr AGAA Cymru]

Diwrnod Agored Mantell yr Arbenigwr – Ysgol Cae'r Nant

YSGOL CAE'R NANT, CEI CONNAH, SIR Y FFLINT – DYDD MERCHER, 21 TACHWEDD 2018
I'r rhai hynny sy'n ystyried gweithredu addysgeg Mantell yr Arbenigwr.
Cliciwch yma am ragor o fanylion.
Mae llefydd yn brin, a dylid cadw lle drwy gysylltu â **Karen.roberts@ycn.flintshire.sch.uk**

Categoreiddio Cenedlaethol 2018-2019

Bydd Categoreiddio Cenedlaethol yn parhau ar gyfer 2018-2019. Mae'r canllawiau atodol yn rhoi cyngor i ysgolion, consortia ac ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ar sut y dylid cymhwyso'r dyfarniad mewn perthynas â'r gallu i wella a'r penderfyniad ynghylch y categori cymorth mewn achosion lle y gall bod angen ystyried ffactorau cyd-destunol a ffactorau eraill.
Cliciwch yma i weld yr amserlen.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter

GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n gwefan

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**
Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.